# Beth yw Deugraff?

**Pâr o lythrennau** a ddefnyddir mewn iaith ysgrifenedig yw **deugraff**.

Mae deugraff yn creu **sain arbennig** (sy'n cael ei alw'n '**ffonem**').

Yn aml defnyddir deugraff ar gyfer sain na all gael ei greu gan un llythyren yn unig e.e. **ch** yn y Gymraeg.

## Deugraffau yn y Gymraeg

**12**

Mae yna deuddeg deugraff yn y Gymraeg. Mae wyth ohonynt yn rhan o'r wyddor (**ch**, **dd**, **ff**, **ng**, **ll,** **ph**, **rh**, **th**) a'r gweddill ddim **mh**, **nh**, **si**, **ts**.

## Ble mae'r ddeugraff yn ymddangos?

Mae'r ddeugraff yn ymddangos yn rhan o eiriau o bob math ac hefyd oherwydd treiglo.

a**ch**os

co**ff**i

fy **ng**wallt

ei **ph**en

newy**dd**

**ts**iaen

**ll**wy

pe**th**au

Mewn **croesair** neu **chwilair** mae deugraff yn cael ei ystyried yn **1 llythyren**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| y | | h | | | A |
| **ch** | w | y | **th** | o | **dd** |
| | | **ll** | | | a |

KMH 2022 SMALA.NET

**Dd**

# Dafydd Hedd

Rhowch gylch am bob **dd**




Un da yw Dafydd. Mae'n golchi ei ddanedd, gwisgo'i ddillad a gorffen ei ddysgl o *Cheerios* a'i ddiod o sudd oren bob dydd. Yna, ym mhob tywydd mae'n cerdded ar hyd y ffordd i'r ysgol, hebio i neuadd y pentref, siop y cigydd a'r tai newydd.

Yn yr ysgol, mae Dafydd un da am ddeall, am ddysgu ac am ddarllen yn ddistaw. Mae'n meddwl am bethau'n ofalus ac mae'n weddol dda hefyd am ddweud ei ddweud yn ei ddosbarth. Mae o'n haeddu marciau da yn aml. Da ydi Dafydd Hedd.

Mae Dafydd yn hoffi'r ysgol. Mae addysg yn bwysig iddo achos ei fod eisiau llwyddo pan mae o'n ddyn.

Ond mae Dafydd hefyd yn dda am ddrysu rhai pethau. Ddoe rhoddodd ddwy esgid wahanol am ei ddwy droed. Roedd o'n edrych yn ddigri iawn.


Da ydi Dafydd Hedd – ond ddim mor dda â hynny!

Ysgrifennwch **6 gair** dydd yn cynnwys '**dd**' ond sydd **ddim yn y stori** uchod:

**Th** Deugraff

# Ethan Mathews

Rhowch gylch am bob **th**



Ethan Mathews ydi hwn. Mae o'n byw mewn bwthyn yn mhentref Bethel gyda'i fam Anthea, ei dad Arthur, ei chwaer Bethan a'i frawd bach Gareth. Enw eu cartref yw Bwthyn Eithin.

Pan oedd Ethan yn un-deg-wyth oed aeth i weithio am wythnos i'r Post Brenhinol, i le mawr anferth, lle roeddan nhw'n sortio llythyrau. Miloedd o lythyrau. Llythyrau i bobl ym Mhorthmadog, Porthaethwy, Tregarth, Bethesda, Porth Penrhyn – a Bwthyn Eithin, Bethel – lle mae Ethan Mathews yn byw.

Roedd yn gweithio wyth awr y dydd am gyflog o wyth bunt yr awr. Roedd yn gweithio drwy'r wythnos ac weithiau ar y penwythnos hefyd.

Cadwodd Ethan ei arian i y gyd i brynu car Mini. Roedd un ar werth yn Garej Gethin Braithwaite ym Mangor.

Ond methodd Ethan ei brawf gyrru saith gwaith a gwerthodd Gethin Braithwaite y car i rhywun arall. Felly mae Ethan yn gorfod teithio i'w waith ar y bws bod dydd. Druan ag Ethan Mathews!

Ysgrifennwch **6 gair** dydd yn cynnwys '**th**' ond sydd **ddim yn y stori** uchod:

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

KMH 2022 SMALA.NET

Ll Deugraff

# Llinos Llywelyn

Rhowch gylch am bob **ll**




Dyma Llinos Llywelyn Llwyd. Mae hi'n gwiethio mewn chwarel sy'n gwneud llechi. Hi yw rheolwr y chwarel ac mae'n gweithio gyda'i chwaer Lleucu.

Mae gan Llinos a Lleucu siop o'r enw Llechi Llwyd Llanllechid lle maen nhw'n gwerthu pob math o bethau wedi eu gwneud o lechi: llestri llechi, llwyau caru llechi, fframiau lluniau llechi a llwyth o bethau eraill.

Mae'r busnes yn llwyddiant mawr ac mae'r lle, a'r til, yn llenwi pan fydd ymwelwyr yn dod. Ymwelwyr o bell ac agos, Llanelli, Llangernwy, Llandybïe a Llanbidinodyn!

Mae rhai cwsmeriaid eisiau llwch llechi gan Llinos a Lleucu, er mwyn gwneud llwybrau i'r ardd. Mae llwybrau llwch llechi Llechi Llwyd ym mhobman drwy Wynedd: Llaniestyn, Llanrug, Llandudno, Llangoed a llefydd eraill.

Pan oeddan nhw'n llai, siop ddillad roedd Llinos a Lleucu eisiau nid chwarel. Ond mae'r ddwy yn deall erbyn heddiw bod gwerthu llechi a llwch llechi yn dod â llawer iawn mwy o arian i'r ddwy.

Ysgrifennwch **6 gair** dydd yn cynnwys '**ll**' ond sydd **ddim yn y stori** uchod:

KMH 2022 SMALA.NET